# EICH ARWEINIAD I COP29

USPG PARTNERS IN GLOBAL MISSION

Cyfarfod i alluogi arweinwyr y byd, gweithredwyr a chynrychiolwyr ymateb i newid hinsawdd yw COP29. Gweddïwch, myfyriwch a gweithredwch ochr yn ochr ag USPG wrth i ni deithio gyda'n gilydd drwy themâu dyddiol y cynulliad yn Baku, Azerbaijan.

## DYDD LLUN, TACHWEDD 11

### 1 AGORIAD

**Gweddïwn:** Boed i wlaw ddisgyn yn dyner ar y mynydd, boed i wynt ymsymud dros y dyfroedd. Mewn daear, môr a ffurfafen, rwyt ti yno. Rydym yn ddigalon, yn hwyrfrydig. Mae'n meddyliau mewn anhrefn, yn dyfalu. Mae dy drugaredd yma. 'Nawr boed i ffydd, gobaith a chariad ymchwyddo fel llanw'r cefnfor. **Amen.**

## DYDD MAWRTH, TACHWEDD 12 A DYDD MERCHER, TACHWEDD 13

### 2 3 UWCHGYNHADLEDD ARWEINWYR Y BYD



Wrth i arweinwyr y byd ymgasglu, cymrwch amser i ddysgu mwy am COP29 a beth fydd yn digwydd dros y deg diwrnod nesaf. Ystyriwch y pynciau trafod a beth fyddech chi yn ei wneud pe baech chi yno. Edrychwch ar wefannau Cenhedloedd Unedig (UN) (www.un.org) am adnoddau defnyddiol.

## DYDD IAU, TACHWEDD 14

### 4 CYLLID, BUDDSODDI A MASNACH

just money movement

Mae gan Dduw gonsyrn am y modd y defnyddiwn ein harian. Fe'n gelwir i ddefnyddio'n harian i wneud daioni (1 Timotheus 6:17-18), i garu'n cymdogion a gofalu am y cread. Beth wyddoch chi am eich banc? Ydy'ch pensiwn chi yn cyfrannu at greu byd mwy cyfiawn a heddychlon? Chwiliwch am fwy a wybodaeth a gweithredwch drwy www.justmoney.org.uk

## DYDD GWENER, 15 TACHWEDD

### 5 HEDDWCH, CYMORTH AC ADFERIAD



Credwn mai eglwysi sydd wedi eu gwreiddio yn eu cymunedau lleol sy'n gwybod orau sut i ymateb pan mae trychineb yn taro. Trwy gyfrannu ar Gronfa Cymorth Cyflym USPG (Rapid Response Fund), gallwch helpu ein partneriaid i fod yno pan mae cymunedau mewn mwyaf o angen. Cewch fwy o wybodaeth yma: rapid-response.raisely.com

## DYDD SADWRN, 16 TACHWEDD

### 6 GWYDDONIAETH, TECHNOLEG AC ARLOESI




Mae newid hinsawdd wedi cael effaith eithafol ar wledydd Affrica, yn y rhanbarthau Is-Sahara yn fwyaf arbennig. Yn eu hymateb, mae Taleithiau Anglicanaidd ar draws y cyfandir wedi lansio ymgyrch hinsawdd gyda thechnegau arloesol i reoli gwastraff – gan gynnwys troi plastig yn gynnyrch all ddod ag elw, megis matiau, bagiau a hetiau.

## DYDD SUL, 17 TACHWEDD

### 7 DYDD O ORFFWYS

**Darllenwch a myfyriwch ar y darn Ysgrythur hwn:** "Mor niferus yw dy weithredoedd, O Arglwydd! Gwnaethost y cyfan mewn doethineb; y mae'r ddaear yn llawn o'th greaduriaid. Dyma'r môr mawr a llydan, gydag ymlusgiaid dirifedi a chreaduriaid bach a mawr" Salm 104:24-25

DYDD LLUN, 18 TACHWEDD

## 8 PLANT AC IEUENCTID/ADDYSG

Mae Eglwys De India yn rhedeg rhaglen eco-ddysgu, sy'n dysgu i blant sgiliau hanfodol, megis sut mae arbed dŵr a chreu gwrteithion allan o wastraff. Trwy ddysgu mwy am ein hamgylchedd, caiff plant eu hysbrydoli i'w warchod a chreu dyfodol gwell.



DYDD MAWRTH, 19 TACHWEDD

## 9 BWYD, AMAETH A DŴR

Mae Esgobaeth Zululand yn Ne Affrica yn wynebu heriau sylweddol gyda bygythiad o brinder bwyd o ganlyniad i ddiffyg adnoddau ac isadeiledd. Amcan Apêl Cynhaeaf USPG yw cynnig cynllun dyfrhau, offer a hyfforddiant i wella'r cyflenwad bwyd a chefnogi hunan-gynhaliaeth. Cyfrannwch heddiw: harvest.uspg.org.uk.



DYDD MERCHER, 20 TACHWEDD

## 10 TREFOLI, TRAFNIDIAETH A THWRISTIAETH

Mae gan y Parchg Sonja Hunter, cyn brif weithredwr Awdurdod Twristiaeth Samoa, sedd rheng-flaen i weld effeithiau andwyol llygredd plastig a newid hinsawdd ar ein cefnforoedd. **Gweithredu: Wrth i chi ystyried eich cynlluniau teithio am 2025, fedrech chi gyfyngu ar eich milltiroedd-awyr ac ymweld â rhywle yn nes adref?**



DYDD IAU, 21 TACHWEDD

## 11 NATUR A BIOAMRYWIAETH/POBL CYNHENID

Mae'r Iglesia Filipina Independiente yn codi llais dros hawliau cymunedau cynhenid yn y Pilipinas, gan roi sylw arbennig i fwyngloddio a chwympo coed anghyfreithlon sy'n sarnu tiroedd yr hynafiaid. Maent yn codi ymwybyddiaeth, ac wedi datblygu adrannau llywodraethol sy'n canolbwyntio ar gefnogaeth ddyngarol a solidariaeth gyda phobl cynhenid.



DYDD GWENER, 22 TACHWEDD

## 12 TRAFODAETHAU TERFYNOL

**Gweddïwn:** Dduw trugarog, cyflwynwn i'th ddwylo, ein hunain, arweinwyr COP29, a gwaith pobl ar draws y byd, o bob cenedl a chrefydd. Nertha'n gweithredu a maddau'n diffyg gweithredu. Maddau'r trachwant, yr ecsploetio a'r esgeulustod ynom sy'n clwyfo dy fyd, dy bobl a ni ein hunain. Clyma ni mewn undod tuag at nod cyffredin – iachâd y byd a dyfodiad dy deyrnas. **Amen.**

## BETH NESAF?

Dewch o hyd i'r grŵp gweithredu ar newid hinsawdd yn eich eglwys chi (neu ffurfiwch un!) a pharhewch i roi eich ffydd ar waith gan ddefnyddio adnoddau megis cyrsiau astudio USPG (www.uspg.org.uk), awgrymiadau o bregethau o Pregethu Gair Duw (www.preachingforgodsword.org.uk) a Gobaith am y Dyfodol (Hope for the Future (www.hftf.org.uk)

USPG PARTNERS IN GLOBAL MISSION
Rhif elusen cofrestredig: 234518
020 7921 2200
info@uspg.org.uk
USPG Global
5 Trinity Street, London SE1 1DB